Ymchwil Coedwigaeth
Forest Research

# Atodiad Data Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Coed

## Cyd-destun a thystiolaeth i gefnogi.

Anna Giannelli

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Asiantaeth Ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth

Forest Research yw Asiantaeth Ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth a phrif sefydliad y DU sy’n ymwneud â choedwigaeth ac ymchwil cysylltiedig â choed.

Nod yr asiantaeth yw cefnogi a chyfoethogi coedwigaeth a’i rôl mewn datblygu cynaliadwy trwy ddarparu ymchwil gwyddonol arloesol o ansawdd uchel, data, cefnogaeth dechnegol a gwasanaethau ymgynghori.

# CONTENTS

Rhestr Ffigyrau ........ 4
Rhestr Tablau ........ 4
Rhestr Siartiau ........ 5
Trosolwg ........ 6
1. Coetiroedd yng Nghymru ........ 7
1.1 Arwynebedd coetiroedd ........ 8
1.2 Arwynebedd coetiroedd yn ôl perchenogaeth a math o goedwig ........ 10
1.2.1 Arwynebedd coetiroedd yn ôl perchenogaeth ........ 10
1.2.2 Arwynebedd coetiroedd yn ôl math o goedwig ........ 12
1.3 Creu ac ail-stocio coetiroedd ........ 13
1.3.1 Creu coetiroedd ........ 13
1.3.2 Ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus ........ 16
2. Cynhyrchu a Phrosesu Coed ........ 20
2.1 Cynhyrchu pren ........ 21
2.2 Rhagolygon argaeledd ........ 24
2.2.1 Rhagolygon argaeledd pren meddal ........ 24
2.2.2 Rhagolygon argaeledd pren caled ........ 26
2.3 Cymarebau cynaeafu/argaeledd ........ 28
2.4 Cyrchfannau pren meddal yng Nghymru ........ 29
........ 29
2.5 Defnydd o bren o fewnforion a'r hyn sy'n dod o'r wlad ........ 30
2.6 Ailgylchu pren yng Nghymru ........ 33
3. Gwerth y Sector Coedwigaeth ........ 35
3.1 Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) ........ 36
3.2 Cyfrifon busnes ........ 41
4. Cyflogaeth yn y Sector Coedwigoedd ........ 45
4.1 Niferoedd gweithwyr ........ 46
4.2 Rhagfynegiad o'r Galw am Lafur ........ 50
4.3 Sgiliau yn y diwydiant coed ........ 51
4.4 Damweiniau yn y gweithle ........ 52

# Rhestr Ffigyrau

**Ffigwr 1** Diagram Sankey yn crynhoi llif y pren a gynhyrchwyd yng Nghymru, 2023. ........ 29

# Rhestr Tablau

**Tabl 1** Arwynebedd coetiroedd yn y DU, 1990-2024 ........ 8
**Tabl 2** Arwynebedd coetiroedd fel canran o gyfanswm arwynebedd y tir ........ 10
**Tabl 3** Arwynebedd coetiroedd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl perchenogaeth, 1990-2024 ........ 11
**Tabl 4** Arwynebedd coetiroedd yn ôl math o goedwig, DU, 31 Mawrth 2024 ........ 13
**Tabl 5** Coetiroedd newydd a blannwyd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl math o goetir a pherchenogaeth, 1990-2024. ........ 14
**Tabl 6** Arwynebedd ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus, DU, 1990-2024 ........ 17
**Tabl 7** Ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus yn ôl math o goedwig yng Nghymru ........ 19
**Tabl 8** Cynhyrchu pren, Cymru, 1990 i 2023 ........ 21
**Tabl 9** Cymarebau cynaeafu/argaeledd ........ 29
**Tabl 10** Meintiau a fewnforiwyd i'r DU, 2014 hyd at 2023. ........ 30
**Tabl 11** Gwlad tarddiad mewnforion pren i'r DU, 2023 ........ 31
**Tabl 12** Ffynhonnell logiau pren meddal i felinau mwy, y DU, 2023 ........ 33
**Tabl 13** Gwerth Gros a Ychwanegwyd yn ôl diwydiant yng Nghymru, 2003 - 2022 ........ 37
**Tabl 14** Gwerth Gros a Ychwanegwyd yn ôl diwydiant yn y DU, 2003-2022 ........ 38
**Tabl 15** GVA diwydiannau coedwigaeth a phrosesu pren Cymru fel canran o'r DU, 2018 i 2022 ........ 40
**Tabl 16** Cyfrifon busnes yng Nghymru yn ôl categori SIC, 2010-2024 ........ 41
**Tabl 17** Nifer melinau llifio sy'n prosesu logiau a dyfwyd yn y DU, yn ôl cenedl ........ 43
**Tabl 18** Cyflogaeth yn ôl sector yng Nghymru, 2015 - 2023, gweithwyr llawn-amser a rhan-amser ........ 46
**Tabl 19** Rhagfynegiad o'r galw am lafur mewn coedwigaeth, Cymru. ........ 50
**Tabl 20** Lefel y cymhwyster uchaf a ddaliwyd yn y sector coedwigaeth, Cymru a Lloegr. ........ 51
**Tabl 21** Cyfanswm y damweiniau yr adroddwyd amdanynt yn ôl 1,000 gweithiwr, Prydain Fawr, 2004/05 i 2022/23. ........ 53
**Tabl 22** Damweiniau yn ôl difrifoldeb a math mewn coedwigaeth, dadansoddiad Confor o ddata RIDDOR ........ 54
**Tabl 23** Damweiniau yn ôl difrifoldeb a math mewn coedwigaeth, dadansoddiad Confor o ddata RIDDOR ........ 55
**Tabl 24** Cyfanswm damweiniau yn y gweithle yr adroddwyd amdanynt dan RIDDOR yn ôl gwlad, 2023/24. ........ 57

# Rhestr Siartiau

**Siart 1** Arwynebedd coetiroedd yng Nghymru, 1990-2024 ............................... 10
**Siart 2** Arwynebedd coetiroedd yng Nghymru wedi'i wahanu yn ôl perchenogaeth, 1990-2024 ........................................................................................ 12
**Siart 3** Plannu coetiroedd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl perchenogaeth, 1971-2024. ........................................................................................ 15
**Siart 4** Plannu coetiroedd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl math o goetir, 1971-2024. ........................................................................................ 16
**Siart 5** Arwynebedd ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus, yn ôl cenedl, 1990-2024 ........................................................................................ 18
**Siart 6** Cynhyrchu pren caled a phren meddal blynyddol yng Nghymru, 1990 - 2023. ........................................................................................ 23
**Siart 7** Cynhyrchu pren Cymru, CNC vs. y sector preifat, 1990 – 2023. ............. 23
**Siart 8** Rhagolygon 25-mlynedd argaledd pren meddal, Cymru. ......................... 25
**Siart 9** Rhagolygon 25-mlynedd argaeledd pren meddal, DU. ........................... 25
**Siart 10** Rhagolygon 50-mlynedd argaeledd pren caled, Cymru ........................ 26
**Siart 11** Rhagolygon 50-mlynedd argaeledd pren caled, Prydain Fawr ............... 27
**Siart 12** Pren a gynaeafwyd yn erbyn argaeledd pren .................................... 28
**Siart 13** Ailgylchu pren yn ôl cenedl yn y DU, 2019-2024. .............................. 34
**Siart 14** Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) y sector coedwigaeth yng Nghymru (1998 = 1.0) ........................................................................................ 39
**Siart 15** Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) y sector coedwigaeth yng Nghymru o gymharu â'r DU (1998 = 1.0) ........................................................................ 40
**Siart 16** Cyfrifon busnes yn ôl sector, Cymru (2010-2024) .............................. 42
**Siart 17** Nifer melinau llifio sy'n prosesu logiau a dyfwyd yn y DU, yn ôl cenedl, 1994-2023 ........................................................................................ 43
**Siart 18** Cyfrif gweithwyr llawn-amser yng Nghymru, yn ôl sector (2015-2023) .. 47
**Siart 19** Gweithwyr llawn-amser mewn coedwigaeth a logio (SIC 02) ym Mhrydain Fawr, 2015-2023 ........................................................................................ 48
**Siart 20** Gweithwyr llawn-amser mewn gweithgynhyrchu pren (SIC 16) ym Mhrydain Fawr, 2015-2023 ........................................................................ 49
**Siart 21** Gweithwyr llawn-amser mewn gweithgynhyrchu papur (SIC 17) ym Mhrydain Fawr, 2015-2023 ........................................................................ 49
**Siart 22** Myfyrwyr Addysg Uwch Coedwigaeth a Choedyddiaeth yn ôl Math o Radd a Blwyddyn Academaidd (Cymru a Lloegr) ................................................ 52
**Siart 23** Tueddiadau yng nghyfanswm y damweiniau yr adroddwyd amdanynt yn ôl 1,000 gweithiwr, Prydain Fawr, 2004/5 i 2022/23. ......................................... 54

# Trosolwg

Mae’r data a gyflwynir yn yr atodiad data hwn yn rhoi cyd-destun a thystiolaeth i gefnogi Strategaeth  Ddiwydiannol Cymru  ar gyfer Coed. Cyflwynir data sy’n ymwneud â maint a chreu coetiroedd, cynhyrchu a phrosesu pren, gwerth economaidd coedwigaeth a chyflogaeth yn y sector yng Nghymru. Caiff llawer o’r data a gyflwynir yn yr atodiad hwn ei gynnwys yn rhifyn nesaf Dangosyddion Coetiroedd i Gymru. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynhyrchu gan Ymchwil Coedwigoedd ar ran Llywodraeth Cymru.

# 1. Coetiroedd yng Nghymru

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae arwynebedd coetiroedd, fel y'u diffinnir gan y Rhestr Eiddo Coedwigoedd Cenedlaethol (NFI), wedi cynyddu yng Nghymru ers 1990 (**Tabl 1** Arwynebedd coetiroedd yn y DU, 1990-2024, **Siart 1** Arwynebedd coetiroedd yng Nghymru, 1990-2024).
- Coetir yw 15% o'r tir yng Nghymru; mae hyn yn uwch na chyfartaledd y DU, ond yn is na'r ganran gyfatebol yn yr Alban (**Tabl 2** Arwynebedd coetiroedd fel canran o gyfanswm arwynebedd y tir).
- Gostwng wnaeth arwynebedd y coetiroedd mewn perchenogaeth gyhoeddus ers 1990, a chynyddu wnaeth arwynebedd y tir sydd mewn dwylo preifat (**Tabl 3** Arwynebedd coetiroedd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl perchenogaeth, 1990-2024, **Siart 2** Arwynebedd coetiroedd yng Nghymru wedi'i wahanu yn ôl perchenogaeth, 1990-2024).
- Yn 2024, coetiroedd llydanddail sydd amlycaf yng Nghymru, sef 55.4% o gyfanswm y coetiroedd (**Tabl 4** Arwynebedd coetiroedd yn ôl math o goedwig, DU, 31 Mawrth 2024).
- Yn 2024, plannwyd 640 hectar o goetiroedd newydd yng Nghymru. Dros y blynyddoedd diwethaf, y sector cyhoeddus fu amlycaf o ran creu coetiroedd newydd, a'r rheiny yn rhai llydanddail (**Tabl 5** Coetiroedd newydd a blannwyd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl math o goetir a pherchenogaeth, 1990-2024. **Siart 3** Plannu coetiroedd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl perchenogaeth, 1971-2024. **Siart 4** Plannu coetiroedd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl math o goetir, 1971-2024.).

## 1.1 Arwynebedd coetiroedd

Dangosir arwynebedd coetiroedd, fel y'u diffinnir gan y Rhestr Eiddo Coedwigoedd Cenedlaethol,  yn  Nhabl 1. 312,000 ha. yw'r mesur diweddaraf o arwynebedd coetiroedd yng Nghymru. Mae clwstwr o goed yn gymwys i'w alw yn goetir os oes iddo arwynebedd o dros 0.5 ha, isafswm lled cyfartalog dros 20 metr a chanopi'n gorchuddio o leiaf 20%, neu'r potensial i gyrraedd hyn. Arwynebeddau gros yw'r arwynebeddau o goetir yr adroddir amdanynt isod ac y maent yn cynnwys mannau agored o lai na 0.5 hectar sy'n rhan annatod ohonynt, clystyrau sydd newydd eu plannu, ac unrhyw fannau lle cwympwyd coed ac sy'n aros i gael eu hail-stocio. Dylid nodi mai darpariaethol yw'r ystadegau am 2024 ac wedi eu hamcangyfrif fel ar of 31 Mawrth 2024. Mae'r rhain yn debyg o newid pan gyhoeddir Ystadegau Coedwigaeth Forest Research ym Medi 2025. Y disgwyl yw y bydd  y stormydd garw yn nhymor stormydd 2024/25 wedi effeithio'n sylweddol ar yr arwynebedd o goetiroedd yr adroddir amdanynt.

Mae arwynebedd y coetiroedd ledled y DU wedi cynyddu ers 1990. Dangosir y cynnydd mewn coetiroedd ar gyfer Cymru yn Siart 1. Dangosir arwynebedd coetiroedd fel canran o gyfanswm arwynebedd y tir yn Nhabl 2. Yn 2023, yr oedd 15% o arwynebedd y tir yng Nghymru yn goetiroedd. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y DU, ond yn is na'r ganran o goetiroedd yn yr Yr Alban.


**Tabl 1** Arwynebedd coetiroedd yn y DU, 1990-2024

| Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth | Cymru | Lloegr | Yr Alban | G. Iwerddon | DU |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Mil hectar* | | | | |
| 1990 | 295 | 1,205 | 1,204 | 74 | 2,778 |
| 1991 | 296 | 1,209 | 1,218 | 75 | 2,798 |
| 1992 | 296 | 1,213 | 1,231 | 76 | 2,815 |
| 1993 | 296 | 1,218 | 1,243 | 77 | 2,833 |
| 1994 | 297 | 1,224 | 1,253 | 78 | 2,851 |
| 1995 | 297 | 1,228 | 1,266 | 78 | 2,870 |
| 1996 | 298 | 1,233 | 1,276 | 79 | 2,886 |

| Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth | Cymru | Lloegr | Yr Alban | G. Iwerddon | DU |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Mil hectar* | | | | |
| 1997 | 298 | 1,237 | 1,288 | 80 | 2,903 |
| 1998 | 299 | 1,241 | 1,299 | 81 | 2,920 |
| 1999 | 299 | 1,246 | 1,309 | 82 | 2,937 |
| 2000 | 300 | 1,252 | 1,320 | 83 | 2,954 |
| 2001 | 300 | 1,257 | 1,331 | 83 | 2,971 |
| 2002 | 301 | 1,262 | 1,339 | 84 | 2,985 |
| 2003 | 301 | 1,267 | 1,346 | 85 | 2,999 |
| 2004 | 301 | 1,272 | 1,352 | 86 | 3,011 |
| 2005 | 302 | 1,277 | 1,358 | 85 | 3,021 |
| 2006 | 302 | 1,280 | 1,362 | 86 | 3,030 |
| 2007 | 303 | 1,283 | 1,368 | 87 | 3,041 |
| 2008 | 303 | 1,285 | 1,372 | 87 | 3,048 |
| 2009 | 303 | 1,288 | 1,376 | 88 | 3,054 |
| 2010 | 303 | 1,290 | 1,378 | 88 | 3,059 |
| 2011 | 304 | 1,292 | 1,383 | 88 | 3,067 |
| 2012 | 305 | 1,298 | 1,403 | 105 | 3,110 |
| 2013 | 306 | 1,298 | 1,411 | 111 | 3,126 |
| 2014 | 306 | 1,302 | 1,424 | 111 | 3,143 |
| 2015 | 306 | 1,305 | 1,432 | 112 | 3,155 |
| 2016 | 307 | 1,305 | 1,435 | 112 | 3,159 |
| 2017 | 308 | 1,306 | 1,438 | 112 | 3,164 |
| 2018 | 309 | 1,307 | 1,446 | 113 | 3,175 |
| 2019 | 310 | 1,316 | 1,459 | 113 | 3,198 |
| 2020 | 310 | 1,320 | 1,469 | 117 | 3,215 |
| 2021 [a] | 310 | 1,320 | 1,476 | 117 | 3,223 |
| 2022 [a] | 310 | 1,330 | 1,488 | 118 | 3,246 |
| 2023 [a] | 311 | 1,333 | 1,496 | 118 | 3,258 |
| 2024 [d] | 312 | 1,338 | 1,511 | 118 | 3,279 |

Data a gymerwyd o ystadegau Coedwigaeth 2024. Mae’r ffynonellau’n cynnwys y Rhestr Eiddo Coedwigoedd Cenedlaethol, Forestry England, Comisiwn Coedwigaeth, Forestry and Land Scotland, Scottish Forestry, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Coedwigoedd. Nodiadau: Mae’r holl goetiroedd ardystiedig wedi eu hardystio dan gynllun y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) neu gynllun Rhaglen Cadarnhau Ardystio Coedwigoedd (PEFC), gyda sawl coetir wedi’u hardystio dan y ddau gynllun. Seilir yr amcangyfrifon ar ddata’r DU a gyhoeddwyd gan yr FSC a PEFC, wedi’i ategu gan ddata o dystysgrifau unigol a ffynonellau eraill. Lle bo modd, mae’r ffigyrau am yr arwynebedd coetir a ardystiwyd, yn hytrach nag arwynebedd y tir a ardystiwyd.
Llawfer: 2021, 2022 ad 2023 a = adolygiad, 2024 d = darpariaethol.

**Siart 1** Arwynebedd coetiroedd yng Nghymru, 1990-2024




**Tabl 2** Arwynebedd coetiroedd fel canran o gyfanswm arwynebedd y tir

| Blwyddyn | Cymru | Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | DU |
|---|---|---|---|---|---|
| 1980 | 12 | 7 | 12 | 5 | 9 |
| 1998 | 14 | 10 | 17 | 6 | 12 |
| 2019 | 15 | 10 | 18 | 8 | 13 |
| 2023 | 15 | 10 | 19 | 9 | 13 |

Cyflwynir pob ffigwr fel canran. Nid oes data ar gael ar gyfer pob blwyddyn. Ffynonellau: Swyddfa Ystadegau Genedlaethol, cyfrifon Woodland Natural Capital, a Forest Research.

# 1.2 Arwynebedd coetiroedd yn ôl perchenogaeth a math o goedwig

## 1.2.1 Arwynebedd coetiroedd yn ôl perchenogaeth

Mae Stad Coetiroedd Llywodraeth Cymru (SCLlC) yn cael ei rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar ran pobl Cymru. Dangosir arwynebedd y coetiroedd a

reolir gan CNC, ac arwynebedd y coetiroedd preifat, yn Nhabl 3 a Siart **2**. Lleihau wnaeth arwynebedd y coetiroedd cyhoeddus ers 1990, ond dros y blynyddoedd diwethaf, arhosodd yn gyson. Cynyddu wnaeth arwynebedd y coetiroedd sydd mewn dwylo preifat, o ganlyniad i blannu ac i brynu coetiroedd fu gynt mewn dwylo cyhoeddus.


**Tabl 3** Arwynebedd coetiroedd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl perchenogaeth, 1990-2024

| Blwyddyn | Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | Sector preifat | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| *Mil hectar* | | | |
| 1990 | 132 | 163 | 295 |
| 1991 | 131 | 164 | 296 |
| 1992 | 130 | 166 | 296 |
| 1993 | 129 | 168 | 296 |
| 1994 | 127 | 170 | 297 |
| 1995 | 125 | 172 | 297 |
| 1996 | 124 | 174 | 298 |
| 1997 | 122 | 176 | 298 |
| 1998 | 121 | 178 | 299 |
| 1999 | 119 | 180 | 299 |
| 2000 | 118 | 182 | 300 |
| 2001 | 117 | 184 | 300 |
| 2002 | 116 | 184 | 301 |
| 2003 | 116 | 185 | 301 |
| 2004 | 116 | 185 | 301 |
| 2005 | 116 | 186 | 302 |
| 2006 | 116 | 187 | 302 |
| 2007 | 115 | 188 | 303 |
| 2008 | 115 | 188 | 303 |
| 2009 | 115 | 188 | 303 |
| 2010 | 115 | 188 | 303 |
| 2011 | 115 | 189 | 304 |
| 2012 | 117 | 188 | 305 |
| 2013 | 118 | 188 | 306 |
| 2014 | 117 | 189 | 306 |
| 2015 | 117 | 189 | 306 |
| 2016 | 117 | 190 | 307 |
| 2017 | 117 | 191 | 308 |

| Blwyddyn | Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | Sector preifat | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| *Mil hectar* | | | |
| 2018 | 117 | 192 | 309 |
| 2019 | 117 | 193 | 310 |
| 2020 | 117 | 193 | 310 |
| 2021 [a] | 115 | 195 | 310 |
| 2022 [a] | 115 | 195 | 310 |
| 2023 [a] | 115 | 196 | 311 |
| 2024 [d] | 115 | 197 | 312 |

Ffynhonnell: Rhestr Eiddo Coedwigoedd Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Llywodraeth Cymru.
Llawfer: 2021, 2022 a 2023 a = adolygiad, 2024 yn d = darpariaethol.

**Siart 2** Arwynebedd coetiroedd yng Nghymru wedi'i wahanu yn ôl perchenogaeth, 1990-2024




## 1.2.2 Arwynebedd coetiroedd yn ôl math o goedwig

Dangosir arwynebedd coetiroedd, wedi'i wahanu yn ol math o goedwig, yn Dabl 4. Coetir llydanddail yw'r math mwyaf cyffredin o goetir yng Nghymru, sef 55.4% o

gyfanswm yr arwynebedd coetiroedd. Mae hyn fymryn yn uwch na chanran y coetiroedd llydanddail yn y DU gyfan. Yn yr Alban, conwydd sydd amlycaf o bell ffordd (70.8%), ond coed llydanddail sydd amlycaf yn Lloegr (77.2%).

**Tabl 4** Arwynebedd coetiroedd yn ôl math o goedwig, DU, 31 Mawrth 2024

| Math o goedwig | Cymru | | Lloegr | | Yr Alban | | Gogledd Iwerddon | | DU | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ha | % | ha | % | ha | % | ha | % | ha | % |
| Llydanddail | 173 | 55.4 | 1033 | 77.2 | 441 | 29.2 | 55 | 46.6 | 1701 | 51.9 |
| Conwydd | 139 | 44.6 | 305 | 22.8 | 1070 | 70.8 | 64 | 54.2 | 1578 | 48.1 |
| Cyfanswm | 312 | 100.0 | 1338 | 100.0 | 1511 | 100.0 | 118 | 100.0 | 3279 | 100.0 |

Ffynhonnell: Ystadegau coedwigaeth (2024). Darpariaethol yw'r gwerthoedd.

## 1.3 Creu ac ail-stocio coetiroedd

Cyhoeddodd Forest Research ddata am greu coetiroedd ac ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus yn Ystadegau Coedwigaeth 2024. Mae'r ffigyrau darpariaethol am blannu o'r newydd ac ail-stocio fel yr adroddwyd amdanynt ar 31 Mawrth 2024, ac y mae a wnelont â blwyddyn blannu 2023/24.

### 1.3.1 Creu coetiroedd


Dangosir y coetiroedd newydd (fel y'u diffinnir gan NFI) a blannwyd yng Nghymru yn Nhabl 5, a dangosir y rhaniad rhwng creu coetiroedd yn ôl perchenogaeth a math o goetir yn Siart 3 a Siart 4. Dros y blynyddoedd diwethaf, plannu llydanddail gan y sector preifat fu amlycaf yng Nghymru o ran creu coetiroedd newydd.

**Tabl 5** Coetiroedd newydd a blannwyd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl math o goetir a pherchenogaeth, 1990-2024.


| Blwyddyn (diweddu 31/3) | Llydanddail | Conwydd | CNC | Preifat | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| *Mil hectar* | | | | | |
| 1989/90 | 0.25 | 0.41 | 0.10 | 0.56 | 0.65 |
| 1990/91 | 0.23 | 0.29 | 0.02 | 0.51 | 0.53 |
| 1991/92 | 0.23 | 0.19 | 0.06 | 0.36 | 0.42 |
| 1992/93 | 0.35 | 0.09 | 0.00 | 0.43 | 0.43 |
| 1993/94 | 0.53 | 0.11 | 0.00 | 0.64 | 0.64 |
| 1994/95 | 0.51 | 0.06 | 0.00 | 0.57 | 0.57 |
| 1995/96 | 0.39 | 0.05 | 0.00 | 0.44 | 0.44 |
| 1996/97 | 0.35 | 0.06 | 0.00 | 0.41 | 0.41 |
| 1997/98 | 0.36 | 0.13 | 0.01 | 0.49 | 0.50 |
| 1998/99 | 0.50 | 0.15 | 0.02 | 0.63 | 0.65 |
| 1999/00 | 0.52 | 0.23 | 0.00 | 0.74 | 0.74 |
| 2000/01 | 0.37 | 0.09 | 0.00 | 0.46 | 0.46 |
| 2001/02 | 0.29 | 0.03 | 0.00 | 0.32 | 0.32 |
| 2002/03 | 0.42 | 0.06 | 0.00 | 0.48 | 0.48 |
| 2003/04 | 0.43 | 0.01 | 0.00 | 0.44 | 0.44 |
| 2004/05 | 0.59 | 0.01 | 0.00 | 0.60 | 0.60 |
| 2005/06 | 0.54 | 0.01 | 0.00 | 0.55 | 0.55 |
| 2006/07 | 0.54 | 0.04 | 0.00 | 0.57 | 0.57 |
| 2007/08 | 0.19 | 0.00 | 0.00 | 0.19 | 0.19 |
| 2008/09 | 0.17 | 0.02 | 0.00 | 0.19 | 0.19 |
| 2009/10 | 0.20 | 0.01 | 0.00 | 0.22 | 0.22 |
| 2010/11 | 0.29 | 0.01 | 0.00 | 0.30 | 0.30 |
| 2011/12 | 0.62 | 0.13 | 0.00 | 0.76 | 0.76 |
| 2012/13 | 0.76 | 0.15 | 0.01 | 0.91 | 0.91 |
| 2013/14 | 0.79 | 0.14 | 0.00 | 0.93 | 0.93 |
| 2014/15 | 0.10 | 0.00 | 0.00 | 0.10 | 0.10 |
| 2015/16 | 0.08 | 0.03 | 0.00 | 0.10 | 0.11 |
| 2016/17 | 0.24 | 0.17 | 0.00 | 0.41 | 0.41 |
| 2017/18 | 0.10 | 0.10 | 0.00 | 0.20 | 0.20 |
| 2018/19 | 0.35 | 0.32 | 0.00 | 0.67 | 0.67 |
| 2019/20 | 0.04 | 0.04 | 0.00 | 0.08 | 0.08 |
| 2020/21 | 0.21 | 0.08 | 0.06 | 0.23 | 0.29 |
| 2021/22 | 0.44 | 0.18 | 0.02 | 0.60 | 0.62 |
| 2022/23 | 0.72 | 0.47 | 0.09 | 1.09 | 1.19 |
| 2023/24 | 0.36 | 0.28 | 0.03 | 0.60 | 0.64 |

Ffynhonnell: Comisiwn Coedwigaeth, Forestry England, Scottish Forestry, Forestry and Land Scotland,Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gwasanaeth Coedwigaeth, cynlluniau grant. Efallai na fydd rhai ffigyrau yn adio i fyny’n union oherwydd confensiynau talgrynnu.

**Siart 3** Plannu coetiroedd yng Nghymru, wedi’i wahanu yn ôl perchenogaeth, 1971-2024.



**Siart 4** Plannu coetiroedd yng Nghymru, wedi'i wahanu yn ôl math o goetir, 1971-2024.




## 1.3.2 Ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus

Ystyr ail-stocio yw cael coed newydd yn lle coetiroedd lle cwympwyd coed. Mae hyn yn cynnwys ail-blannu ac adfywio naturiol. Mae'r data a gyflwynir yma yn cynnwys yn unig ail-stocio coetiroedd a gyllidwyd yn gyhoeddus, ac ail-stocio coetiroedd preifat gyda chymorth grantiau. Dengys Tabl 6 arwynebedd yr ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus ledled y DU. Dengys Siart 5 y duedd yn arwynebedd yr ail-stocio ar draws y pedair cenedl. Ail-stociwyd 1.58 mil hectar o goetiroedd yng Nghymru yn 2023/24. Ers 1990 bu tuedd gyffredinol tuag i lawr yn arwynebedd blynyddol yr ail-stocio yng Nghymru. Dengys Tabl 7 y rhaniad rhwng ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus yn ôl math o goedwig yng Nghymru. Coetiroedd conwydd sydd amlycaf o ran ail-stocio; fodd bynnag, nid oes modd pennu ai coed conwydd, llydanddail

neu gymysgedd o'r ddau arferai fod yn y mannau a ail-stociwyd. Serch hynny, mae'n debygol fod y rhan fwyaf o ail-stocio â chonwydd wedi digwydd mewn ardaloedd lle cwympwyd coed conwydd ar gyfer cynhyrchu pren yn fasnachol, felly nid yw'n debygol o effeithio ar raniad conwydd/llydanddail coetiroedd yng Nghymru.


**Tabl 6** Arwynebedd ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus, DU, 1990-2024

| Blwyddyn | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | DU |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Mil hectar* | | | | |
| 1989/90 | 6.72 | 1.64 | 5.77 | 0.50 | 14.62 |
| 1990/91 | 6.52 | 1.77 | 6.50 | 0.46 | 15.26 |
| 1991/92 | 6.97 | 2.36 | 6.84 | 0.49 | 16.66 |
| 1992/93 | 6.70 | 2.43 | 7.46 | 0.48 | 17.06 |
| 1993/94 | 6.44 | 2.40 | 7.57 | 0.47 | 16.88 |
| 1994/95 | 4.93 | 2.60 | 6.58 | 0.56 | 14.66 |
| 1995/96 | 4.22 | 2.27 | 6.83 | 0.64 | 13.96 |
| 1996/97 | 4.32 | 2.96 | 7.22 | 0.57 | 15.08 |
| 1997/98 | 4.37 | 2.73 | 6.34 | 0.73 | 14.17 |
| 1998/99 | 4.07 | 3.04 | 6.33 | 0.69 | 14.13 |
| 1999/00 | 3.88 | 2.63 | 8.05 | 0.65 | 15.21 |
| 2000/01 | 3.96 | 2.19 | 8.02 | 1.11 | 15.29 |
| 2001/02 | 3.37 | 1.89 | 7.76 | 0.90 | 13.92 |
| 2002/03 | 3.35 | 1.90 | 8.48 | 0.73 | 14.46 |
| 2003/04 | 3.17 | 1.82 | 8.90 | 1.05 | 14.94 |
| 2004/05 | 2.83 | 1.85 | 10.41 | 0.97 | 16.05 |
| 2005/06 | 3.23 | 2.76 | 9.00 | 0.94 | 15.93 |
| 2006/07 | 2.76 | 2.98 | 12.40 | 0.81 | 18.95 |
| 2007/08 | 3.50 | 2.33 | 12.55 | 0.53 | 18.91 |
| 2008/09 | 3.46 | 2.23 | 9.59 | 0.84 | 16.12 |
| 2009/10 | 2.78 | 2.06 | 9.55 | 0.70 | 15.10 |
| 2010/11 | 3.97 | 2.11 | 6.90 | 1.05 | 14.03 |
| 2011/12 | 3.63 | 1.98 | 5.68 | 1.00 | 12.29 |
| 2012/13 | 3.98 | 1.96 | 6.04 | 1.16 | 13.13 |
| 2013/14 | 4.49 | 2.26 | 7.89 | 1.16 | 15.81 |
| 2014/15 | 6.41 | 1.94 | 8.45 | 1.04 | 17.84 |

| Blwyddyn | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | DU |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Mil hectar* | | | | |
| 2015/16 | 3.31 | 1.76 | 7.82 | 0.81 | 13.71 |
| 2016/17 | 3.00 | 1.70 | 11.07 | 1.31 | 17.09 |
| 2017/18 | 2.04 | 1.67 | 9.66 | 0.94 | 14.30 |
| 2018/19 | 1.65 | 1.70 | 11.19 | 0.83 | 15.37 |
| 2019/20 | 2.74 | 1.50 | 9.88 | 0.71 | 14.83 |
| 2020/21 | 2.42 | 1.85 | 9.17 | 0.64 | 14.07 |
| 2021/22 | 3.09 | 1.48 | 9.90 | 0.81 | 15.28 |
| 2022/23 | 2.69 | 1.34 | 7.47 | 0.89 | 12.39 |
| 2023/24 [p] | 3.53 | 1.58 | 10.07 | 0.69 | 15.87 |

Ffynhonnell: Comisiwn Coedwigaeth, Forestry England, Scottish Forestry, Forestry and Land Scotland, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Coedwigoedd, cynlluniau grant.

**Siart 5** Arwynebedd ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus, yn ôl cenedl, 1990-2024



**Tabl 7** Ail-stocio a gyllidwyd yn gyhoeddus yn ôl math o goedwig yng Nghymru

| Blwyddyn (diweddu 31/3) | Conwydd | Llydanddail | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2019/20 | 0.92 | 0.58 | 1.50 |
| 2020/21 | 1.16 | 0.68 | 1.85 |
| 2021/22 | 0.93 | 0.54 | 1.48 |
| 2022/23 | 1.08 | 0.26 | 1.34 |
| 2023/24 | 1.29 | 0.28 | 1.58 |

Ffynhonnell: Comisiwn Coedwigaeth, Forestry England, Scottish Forestry, Forestry and Land Scotland, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Coedwigoedd, cynlluniau grant.

# 2. Cynhyrchu a Phrosesu Coed

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae cynhyrchu pren meddal yng Nghymru wedi cynyddu o bron i 65% ers 1990, i 1,164 mil o dunelli gwyrdd yn 2023. Fodd bynnag, bu'r cynhyrchu yn uwch nag y mae ar hyn o bryd yn ystod rhai o'r blynyddoedd rhwng hyn (**Tabl 8** Cynhyrchu pren, Cymru, 1990 i 2023).
- Gostwng wnaeth cynhyrchu pren caled yng Nghymru o 47.1% ers 1990 ond ar hyn o bryd, y mae'n uwch nag y bu yn ystod rhai o'r blynyddoedd rhwng hyn (**Tabl 8** Cynhyrchu pren, Cymru, 1990 i 2023).
- Daw oddeutu 95% o'r pren a gynhyrchir yng Nghymru o goed conwydd.
- Yn 2023, yr oedd 42% o'r pren meddal a gynhyrchwyd yng Nghymru yn mynd yn uniongyrchol i felinau llifio a ffensio yng Nghymru (**Ffigwr 1** Diagram Sankey yn crynhoi llif y pren a gynhyrchwyd yng Nghymru, 2023.)
- Bu symudiad o gynhyrchu pren yn gyhoeddus i gynhyrchu preifat ers 1990 (**Siart 7** Cynhyrchu pren Cymru, CNC vs. y sector preifat).
- Disgwylir i argaeledd pren meddal ostwng yng Nghymru o 2022 hyd at 2046. Nid yw hyn yn wir am y DU gyfan. (**Siart 8** Rhagolygon 25-mlynedd argaeledd pren meddal, Cymru. **Siart 9** Rhagolygon 25-mlynedd argaeledd pren meddal, DU.).
- Mae 81% o'r cynhyrchion pren a ddefnyddir yn y DU ar hyn o bryd yn cael eu mewnforio. Nid oes modd ar hyn o bryd cynhyrchu dadansoddiad dibynadwy o bren a fewnforir yn benodol i Gymru.
- Mae Cymru yn ailgylchu llawer iawn o bren gwastraff y DU (**Siart 13** Ailgylchu pren yn ôl cenedl yn y DU, 2019-2024.)

## 2.1 Cynhyrchu pren

Blaenoriaeth 1 y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren yw cynyddu'r cyflenwad o bren.

Tabl 8 gynhyrchu pren yng Nghymru o 1990 i 2023, a dangosir hyn ymhellach yn Siart 6 a Siart 7. Cynyddodd cynhyrchu pren meddal yng Nghymru ers 1990, er y bu'n uwch nag y mae ar hyn o bryd yn ystod rhai o'r blynyddoedd rhwng hyn. Y sector preifat sydd bellach yn gyfrifol am gyfran fwy o gynhyrchu pren yng Nghymru; er hynny, mae CNC yn parhau i gynhyrchu mwy o bren yn gyffredinol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r newid ym mherchenogaeth coetiroedd, yn ogystal â thra-arglwyddiaeth y sector preifat wrth greu coetiroedd.

Mae Siart 6 yn dangos pa mor amlwg yw cynhyrchu pren meddal yn y diwydiant pren yng Nghymru, gyda chynhyrchu pren caled yn 5.3% yn unig o gyfanswm y pren a gynhyrchir.


**Tabl 8** Cynhyrchu pren, Cymru, 1990 i 2023

| Blwyddyn | CNC Pren meddal | Sector preifat Pren meddal | Cyfanswm Pren meddal | CNC Pren caled | Sector Preifat Pren caled | Cyfanswm Pren caled |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Miloedd tunelli gwyrdd* | | | | | |
| 1990 | 593 | 112 | 706 | 8 | 60 | 68 |
| 1991 | 645 | 103 | 748 | 8 | 60 | 68 |
| 1992 | 696 | 108 | 804 | 6 | 45 | 51 |
| 1993 | 701 | 148 | 849 | 6 | 28 | 34 |
| 1994 | 754 | 188 | 942 | 10 | 28 | 37 |
| 1995 | 721 | 243 | 964 | 9 | 30 | 39 |
| 1996 | 749 | 258 | 1,006 | 10 | 26 | 36 |
| 1997 | 839 | 291 | 1,131 | 11 | 25 | 36 |
| 1998 | 763 | 294 | 1,057 | 21 | 11 | 32 |
| 1999 | 836 | 309 | 1,144 | 11 | 19 | 30 |
| 2000 | 752 | 322 | 1,074 | 11 | 18 | 29 |
| 2001 | 779 | 375 | 1,154 | 15 | 13 | 28 |
| 2002 | 894 | 325 | 1,219 | 10 | 18 | 28 |


| Blwyddyn | CNC Pren meddal | Sector preifat Pren meddal | Cyfanswm Pren meddal | CNC Pren caled | Sector Preifat Pren caled | Cyfanswm Pren caled |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Miloedd tunelli gwyrdd* | | | | | |
| 2003 | 880 | 283 | 1,163 | 9 | 16 | 25 |
| 2004 | 783 | 289 | 1,072 | 9 | 14 | 23 |
| 2005 | 673 | 266 | 939 | 11 | 16 | 26 |
| 2006 | 612 | 326 | 937 | 3 | 16 | 19 |
| 2007 | 584 | 382 | 966 | 2 | 17 | 20 |
| 2008 | 556 | 333 | 889 | 2 | 17 | 19 |
| 2009 | 717 | 321 | 1,038 | 8 | 16 | 24 |
| 2010 | 644 | 427 | 1,071 | 4 | 20 | 24 |
| 2011 | 689 | 501 | 1,190 | 6 | 18 | 24 |
| 2012 | 663 | 611 | 1,275 | 4 | 20 | 24 |
| 2013 | 693 | 695 | 1,388 | 3 | 20 | 24 |
| 2014 | 722 | 739 | 1,460 | 1 | 22 | 24 |
| 2015 | 692 | 686 | 1,378 | 5 | 20 | 25 |
| 2016 | 778 | 643 | 1,421 | 3 | 24 | 26 |
| 2017 | 540 | 783 | 1,323 | 2 | 31 | 33 |
| 2018 | 706 | 628 | 1,334 | 3 | 35 | 37 |
| 2019 | 536 | 485 | 1,021 | 3 | 35 | 39 |
| 2020 | 628 | 550 | 1,179 | 1 | 36 | 37 |
| 2021 | 678 | 581 | 1,259 | 1 | 36 | 36 |
| 2022 | 566 | 557 | 1,123 | 1 | 36 | 37 |
| 2023 | 608 | 555 | 1,164 | 2 | 34 | 36 |

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru, Arolwg Symudiad Pren Meddal y Sector Preifat (Forest Research).

**Siart 6** Cynhyrchu pren caled a phren meddal blynyddol yng Nghymru, 1990 - 2023.




**Siart 7** Cynhyrchu pren Cymru, CNC vs. y sector preifat, 1990 – 2023.




## 2.2 Rhagolygon argaeledd

### 2.2.1 Rhagolygon argaeledd pren meddal


Cyhoeddwyd rhagolwg 25-mlynedd argaeledd pren meddal y Rhestr Eiddo Coedwigoedd Cenedlaethol yn 2022. Dengys y rhagolwg yr argaeledd posib, yn hytrach na'r hyn a gynhyrchwyd. Nid yw'r rhagolygon yn ystyried amrywiadau mewn amcanion rheoli, ffactorau ariannol na chyflwr y marchnadoedd; gall y rhain oll effeithio ar lefel ac amseriad y cynaeafu. Y gwerthoedd a gyflwynir yw'r meintiau blynyddol cyfartalog a ragfynegir am logiau bychain o goed conwydd sydd ar gael o fewn cyfnodau. Oherwydd yr heriau sy'n gysylltiedig â mesur dimensiynau'r haen dan risgl cyff coeden fyw, mae swm y deunydd coediog sy'n ffurfio prif flaguryn ("cyff") coeden fyw sy'n tyfu uwchlaw'r ddaear yn cael ei amcangyfrif fel arfer yn "glwstwr o goed gan gynnwys y rhisgl". Y confensiwn yw bod y cyff yn cynnwys yr holl goedyn sydd uwchlaw'r ddaear gyda diamedr sy'n cynnwys y rhisgl o fwy na 7 cm (h.y., y swm y gellir ei ddefnyddio ar gyfer llifio pren). Gall hyn olygu y bydd canghennau 'syth' sylweddol (h.y., mwy na 3 m o hyd gyda diamedr brig mwy na 7 cm) yn cael eu cynnwys fel rhan o gyfaint y prif gyff.

Dengys Siart 8 a Siart 9 y tueddiadau mewn argaeledd pren meddal a ragfynegir yng Nghymru a'r DU. Disgwylir i argaeledd coed yn y sector cyhoeddus (a reolir gan CNC) ddisgyn yng Nghymru, gyda chynnydd bychan yn argaeledd y sector preifat. Awgryma'r rhagolwg am y DU gyfan y disgwylir i argaeledd pren meddal gynyddu tan 2041, a dyma pryd y rhagfynegir y bydd yn gostwng, tra bydd argaeledd yn y sector cyhoeddus yn gostwng yn gyson. Mae tra-arglwyddiaeth coed o'r sector preifat yn nodwedd a welir ledled y DU, a'r rhagolygon yw y bydd argaeledd coed o'r sector cyhoeddus yn gostwng yng Nghymru a'r DU fel ei gilydd.

**Siart 8** Rhagolygon 25-mlynedd argaledd pren meddal, Cymru.





**Siart 9** Rhagolygon 25-mlynedd argaeledd pren meddal, DU.




## 2.2.2 Rhagolygon argaeledd pren caled

Cyhoeddwyd y rhagolygon diweddaraf am argaeledd pren caled yn y DU yn 2014. Mae'r rhagolwg yn rhoi rhagamcan o'r pren caled sydd ar gael o goed llydanddail yn tyfu ym Mhrydain Fawr bryd hynny. Dangosir y tueddiadau a ragfynegwyd am argaeledd pren caled yn Siart 10 a Siart 11. Gwelir yr un tueddiadau yn y rhagolygon argaeledd yng Nghymru ag a ragwelir ar draws y cenhedloedd eraill.

**Siart 10** Rhagolygon 50-mlynedd argaeledd pren caled, Cymru




**Siart 11** Rhagolygon 50-mlynedd argaeledd pren caled, Prydain Fawr



## 2.3 Cymarebau cynaeafu/argaeledd

**Siart 12** Pren a gynaeafwyd yn erbyn argaeledd pren





Dengys Siart 12 swm y pren meddal a phren caled a gynaeafwyd mewn gwirionedd (cynhyrchu) yn erbyn yr argaeledd a ragwelwyd. Dengys Tabl 9 y cymarebau cynaeafu/argaeledd am yr un data. Yr ystod cynaeafu a argymhellir yw 77% i 98% ac, ers 2012, bu cymarebau cynaeafu pren meddal yn brin o'r argymhelliad hwn. Dylid nodi mai o 2013 ymlaen yn unig y mae rhagolygon manwl gywir am argaeledd pren caled ar gael, felly cynhwysir data o'r cyfnod hwn ymlaen yn unig.

**Tabl 9** Cymarebau cynaeafu/argaeledd

| Blwyddyn | 00 | 01 | 02 | 03 | 04 | 05 | 06 | 07 | 08 | 09 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pren meddal (%) | 77 | 83 | 79 | 75 | 69 | 61 | 61 | 66 | 61 | 71 | 74 | 82 | 73 | 70 | 74 | 69 | 72 | 66 | 66 | 51 | 59 | 63 | 53 | 55 |
| Pren caled (%) | | | | | | | | | | | | | | 75 | 75 | 78 | 81 | 57 | 64 | 67 | 64 | 62 | 39 | 38 |

## 2.4 Cyrchfannau pren meddal yng Nghymru

**Ffigwr 1** Diagram Sankey yn crynhoi llif y pren a gynhyrchwyd yng Nghymru, 2023.




Ffynhonnell: Forest Research, 2025.

Dengys Ffigwr 1 grynodeb o lif y pren o goed a dyfwyd yng Nghymru yn 2023. Cynaeafwyd cyfanswm lo 1,163 mil tunnell werdd o bren meddal yng Nghymru yn 2023. O hyn, mae 490 mil tunnell werdd o bren o goed a dyfir yng Nghymru yn

mynd yn uniongyrchol i felinau llifio a ffensio yng Nghymru. 42% yw hyn o'r pren o goed a dyfir, gyda chyfanswm o 66% o'r pren yn cael ei ddefnyddio gan felinau llifio a ffensio yn y DU. Dim ond 22 mil tunnell werdd, neu 1.9%, o bren o goed Cymreig sy'n cael eu hallforio ar hyn o bryd y tu hwnt i'r DU. Aiff cyfran fechan o bren o goed a dyfir yng Nghymru yn uniongyrchol i bren strwythurol ar gyfer adeiladu yng Nghymru (11 mil tunnell werdd, neu 0.94% o'r holl bren meddal sy'n cael ei symud). Fodd bynnag, mae'n debygol fod cynhyrchion pren eraill a ddefnyddir mewn adeiladu, megis bwrdd ffibr dwysedd canolig (MDF), bwrdd gronynnau (bwrdd sglodion), neu fwrdd haenau wedi'u cyfeiriadu (OSB), yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru o bren Cymreig neu bren a ailgylchwyd.

## 2.5 Defnydd o bren o fewnforion a'r hyn sy'n dod o'r wlad

Ar hyn o bryd, mae 81% o bren a chynnyrch pren a ddefnyddir yn y DU yn cael eu mewnforio. Dengys Tabl 10 faint a fewnforiwyd i'r DU o 2014 hyd at 2023. Mae Tabl 11 yn dangos gwlad tarddiad mewnforion pren i'r DU. Daw'r rhan fwyaf o bren a ddefnyddir yn y DU o'r Undeb Ewropeaidd, gogledd Ewrop yn benodol. Mae mewnforion yn dod dan ddylanwad amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid a phwysau rhyngwladol eraill, felly da o beth yw canoli ar bren o goed a dyfir gartref. Nid yw'r data hwn am y DU ar hyn o bryd ar gael ar lefel benodol i Gymru.

**Tabl 10** Meintiau a fewnforiwyd i'r DU, 2014 hyd at 2023.

| Blwyddyn | Pren wedi'i lifio | Paneli â sylfaen o bren | Mathau eraill o bren | Pelenni pren | Mwydion a phapur |
|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 6,425 | 3,260 | 1,329 | 4,773 | 7,319 |
| 2015 | 6,323 | 3,215 | 1,378 | 6,573 | 7,560 |
| 2016 | 6,794 | 3,410 | 1,121 | 6,782 | 7,092 |

| Blwyddyn | Pren wedi'i lifio | Paneli â sylfaen o bren | Mathau eraill o bren | Pelenni pren | Mwydion a phapur |
|---|---|---|---|---|---|
| 2017 | 7,663 | 3,800 | 1,379 | 6,885 | 6,798 |
| 2018 | 7,213 | 3,878 | 1,766 | 7,992 | 6,663 |
| 2019 | 7,040 | 3,650 | 2,112 | 8,878 | 6,130 |
| 2020 | 7,218 | 3,267 | 2,136 | 9,078 | 5,329 |
| 2021 | 8,159 | 3,794 | 1,602 | 9,128 | 5,114 |
| 2022 | 6,294 | 3,230 | 1,772 | 7,516 | 5,452 |
| 2023 | 6,210 | 3,134 | 1,653 | 6,364 | 4,784 |

Ffynhonnell: ystadegau coedwigaeth (2024), ystadegau masnach dramor y DU (CThEF).

**Tabl 11** Gwlad tarddiad mewnforion pren i'r DU, 2023

| Gwlad | Pren meddal wedi'i lifio | Pren caled wedi'i lifio | Pren haenog | Bwrdd gronynnog | Bwrdd ffibr | Pelenni | Mwydion pren | Papur a bwrdd papur |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Canran o gyfanswm maint mewnforion i'r DU ym mhob categori* | | | | | | | | |
| Sweden | 43 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 26 | 15 |
| Yr Almaen | 8 | 3 | 0 | 14 | 18 | 1 | 0 | 17 |
| Y Ffindir | 13 | 1 | 5 | 0 | 1 | 0 | 9 | 11 |
| Latfia | 19 | 13 | 3 | 11 | 2 | 9 | 0 | 0 |
| Ffrainc | 0 | 16 | 0 | 17 | 2 | 0 | 0 | 7 |
| Iwerddon | 8 | 1 | 1 | 16 | 34 | 0 | 4 | 1 |
| Yr Iseldiroedd | 2 | 6 | 1 | 5 | 1 | 1 | 6 | 6 |
| Gwlad Belg | 1 | 4 | 1 | 11 | 9 | 1 | 0 | 7 |
| Portiwgal | 0 | 0 | 0 | 7 | 1 | 1 | 0 | 4 |
| Gwlad Pwyl | 0 | 2 | 2 | 1 | 4 | 0 | 1 | 2 |
| Estonia | 1 | 7 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |

| Gwlad | Pren meddal wedi'i lifio | Pren caled wedi'i lifio | Pren haenog | Bwrdd gronynnog | Bwrdd ffibr | Pelenni | Mwydion pren | Papur a bwrdd papur |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Canran o gyfanswm maint mewnforion i'r DU ym mhob categori* | | | | | | | | |
| UE arall | 1 | 10 | 3 | 14 | 12 | 3 | 9 | 8 |
| **Cyfanswm UE** | **96** | **66** | **16** | **96** | **84** | **17** | **55** | **78** |
| UDA | 0 | 14 | 0 | 0 | 0 | 73 | 0 | 4 |
| Canada | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 8 | 0 | 3 |
| Brasil | 0 | 3 | 18 | 0 | 5 | 2 | 36 | 1 |
| Tsieina | 0 | 0 | 51 | 1 | 8 | 0 | 0 | 2 |
| Norwy | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Arall heb fod yn yr UE | 1 | 15 | 13 | 3 | 3 | 0 | 9 | 8 |
| **Cyfanswm heb fod yn yr UE** | **4** | **34** | **84** | **4** | **16** | **83** | **45** | **22** |

Ffynhonnell: ystadegau coedwigaeth (2024), ystadegau masnach dramor y DU (CThEF).

Dengys Tabl 12 ffynhonnell logiau pren meddal ar gyfer melinau mwy (y rhai sy'n cynhyrchu o leiaf 25 mil metr ciwbig o bren wedi ei lifio'n flynyddol), wedi'i gymryd o arolwg blynyddol Melinau Llifio Forest Research. Yn achos Cymru, daw 268 mil tunnell werdd o logiau pren meddal ar gyfer melinau mwy o Gymru, o gymharu â 57 mil tunnell werdd o Loegr a 30 o'r Alban. Mae hyn yn cyfateb i 75% o logiau pren meddal yn dod o Gymru. Y cyfrannau cyfatebol am y DU o ddefnydd logiau'r melinau yn dod o'r un wlad oedd 64% ar gyfer Lloegr, 98% i'r Alban a 49% i Ogledd Iwerddon . Nid oes unrhyw logiau pren meddal sy'n cael eu prosesu mewn melinau mwy yng Nghymru yn dod o'r tu allan i'r DU.

**Tabl 12** Ffynhonnell logiau pren meddal i felinau mwy, y DU, 2023

| Gwlad tarddiad | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru | DU |
|---|---|---|---|---|---|
| *Mil tunelli gwyrdd* | | | | | |
| Lloegr | 749 | 0 | 35 | 57 | 841 |
| Cymru | 219 | 0 | 0 | 268 | 487 |
| Yr Alban | 201 | 0 | 2,037 | 30 | 2,268 |
| Gogledd Iwerddon | 0 | 254 | 0 | 0 | 254 |
| **Cyfanswm logiau y DU** | **1,168** | **254** | **2,072** | **355** | **3,850** |
| Gwledydd eraill | 0 | 266 | 0 | 0 | 266 |
| **Cyfanswm logiau a ddefnyddir** | **1,168** | **520** | **2,072** | **355** | **4,116** |

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Forest Research (2024). P_Timber_FS2024.pdf


## 2.6 Ailgylchu pren yng Nghymru

Blaenoriaeth 3 y Strategaeth Ddiwydiannol ar Gyfer Coed yw effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol. Er y canolir ar gadw pren allan o'r ffrwd wastraff, cynyddu y mae swm y pren a ailgylchir yng Nghymru ac y mae'n sylweddol uwch nac yng nghenhedloedd eraill y DU.

Mae modd ailgylchu gwastraff pren yn gynhyrchion newydd gwerthfawr, sy'n aml yn uwch eu gwerth na'r cynnyrch gwreiddiol. Gall hyn gynnwys byrddau panel, biomas, deunydd gwely i anifeiliaid, arwynebeddau tirweddu, a mwy. Dengys Siart 13 faint o bren a ailgylchwyd ar draws y DU. Mae dros 93% o'r ailgylchu pren yng Nghymru yn digwydd yn Kronospan Cyf., Y Waun, lle'r ailgylchwyd cyfanswm o

37,870 tunnell o bren yn 2023-24. Mae defnyddio pren a ailgylchwyd, yn enwedig yn y diwydiant adeiladu, yn cynnig cryn botensial i wella natur gylchol y diwydiant pren.

**Siart 13** Ailgylchu pren yn ôl cenedl yn y DU, 2019-2024.



# 3. Gwerth y Sector Coedwigaeth

**Pwyntiau allweddol:**

- Mae Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) wedi cynyddu ar draws y sector ers 1998, yn unol â phatrymau ledled y DU (**Siart 14** Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) y sector coedwigaeth yng Nghymru (1998 = 1.0)). Bu cynnydd cymharol fwy mewn GVA yng Nghymru nac yn y DU (**Siart 15** Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) y sector coedwigaeth yng Nghymru o gymharu â'r DU (1998 = 1.0)).
- Mae cyfrifon busnes mewn coedwigaeth a logio (Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU SIC 02) a chynhyrchu cynhyrchion pren (SIC 16) wedi cynyddu yng Nghymru rhwng 2010 a 2024; fodd bynnag, gostwng wnaeth cyfrifon busnes yn y sector cynhyrchu papur a chynhyrchion papur (SIC 17) dros yr un cyfnod (**Siart 16** Cyfrifon busnes yn ôl sector, Cymru (2010-2024)).
- Gostyngodd nifer y melinau llifio sy'n prosesu logiau a dyfwyd yn y DU yng Nghymru o 68% rhwng 1994 a 2023, o 37 i 12, yn ôl arolwg melinau llifio Forest Research. Mae'n debyg fod nifer y melinau llifio sy'n gweithredu yng Nghymru yn sylweddol uwch na hyn (**Siart 17** Nifer melinau llifio sy'n prosesu logiau a dyfwyd yn y DU).

## 3.1 Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA)

Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) yw ffordd o fesur cyfraniad pob cynhyrchydd, diwydiant neu sector unigol i'r economi. Dyma'r gwahaniaeth rhwng gwerth allbynnau a gwerth eu defnydd canolraddol, felly costau cyflogaeth ac elw ydyw yn bennaf.

Mae'r Arolwg Busnes Blynyddol (ABB) a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (SYG) yn cynnwys ystadegau am werth gros a ychwanegwyd ar gyfer gwahanol ddiwydiannau, wedi'u dosbarthu yn ôl Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (SIC 2007). Y tri chod SIC a gynhwysir yn y data hyn yw SIC 02: coedwigaeth a logio, SIC 16: gweithgynhyrchu cynhyrchion pren, ac eithrio am ddodrefn, a SIC 17: Gweithgynhyrchu cynhyrchion papur. Mae mwy o fanylion am yr hyn sy'n cael ei gynnwys dan bob cod SIC yn: UK Standard Industrial Classification (SIC) Hierarchy. Dylid nodi fod *planhigfeydd coedwig* yn cael eu cynnwys yn SIC 02; er hynny, cynhwysir rhai planhigfeydd coed yn SIC 01.30: lledaenu planhigion.

Dengys Tabl 13 GVA am goedwigaeth a phrif brosesu pren ar gyfer Cymru. Mae Tabl 14 yn rhoi dadansoddiad o GVA am yr un codau diwydiant SIC i'r DU gyfan, a gafwyd o'r Arolwg Busnes Blynyddol, a gynhaliwyd gan y SYG.

**Tabl 13** Gwerth Gros a Ychwanegwyd yn ôl diwydiant yng Nghymru, 2003 - 2022

| Diwydiant [cod SIC07] | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£ miliwn* | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Coedwigaeth a logio [02] | 19 | 20 | 20 | 21 | 27 | 34 | 42 | 37 | 47 | 53 | 48 | 50 | 54 | 47 | 49 | 51 | 65 | 64 | 65 | 74 |
| Gweithgynhyrchu cynhyrchion pren, ac eithrio am ddodrefn [16] | 110 | 121 | 130 | 124 | 146 | 122 | 94 | 104 | 107 | 152 | 155 | 174 | 218 | 268 | 214 | 234 | 236 | 256 | 275 | 272 |
| Gweithgynhyrchu cynhyrchion papur [17] | 228 | 193 | 191 | 153 | 172 | 172 | 205 | 308 | 312 | 340 | 317 | 331 | 278 | 306 | 298 | 292 | 334 | 304 | 251 | 268 |
| Cyfanswm prosesu pren [16, 17] | 338 | 314 | 321 | 277 | 318 | 294 | 299 | 412 | 419 | 492 | 472 | 505 | 496 | 574 | 512 | 526 | 570 | 560 | 526 | 540 |
| Cyfanswm [02, 16, 17] | 357 | 334 | 341 | 298 | 345 | 328 | 341 | 449 | 466 | 545 | 520 | 555 | 550 | 621 | 561 | 577 | 635 | 624 | 591 | 614 |


Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Genedlaethol [Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) - Swyddfa Ystadegau Genedlaethol]

**Tabl 14** Gwerth Gros a Ychwanegwyd yn ôl diwydiant yn y DU, 2003-2022


| Industry [SIC07 code] | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£ miliwn* | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Coedwigaeth a logio [02] | 233 | 263 | 248 | 262 | 331 | 435 | 510 | 397 | 537 | 643 | 565 | 596 | 726 | 545 | 721 | 696 | 973 | 977 | 987 | 1,020 |
| Gweithgynhyrchu cynhyrchion pren, ac eithrio am ddodrefn [16] | 2,097 | 2,377 | 2,363 | 2,343 | 2,655 | 2,512 | 1,848 | 2,067 | 2,187 | 2,618 | 2,325 | 2,626 | 3,058 | 3,534 | 3,037 | 3,342 | 3,669 | 3,649 | 3,778 | 4,002 |
| Gweithgynhyrchu cynhyrchion papur [17] | 3,352 | 2,959 | 3,009 | 2,563 | 2,953 | 2,988 | 3,134 | 3,718 | 3,748 | 3,967 | 3,621 | 3,982 | 3,663 | 4,292 | 4,267 | 4,147 | 4,488 | 4,169 | 3,904 | 4,101 |
| Cyfanswm prosesu pren [16, 17] | 5,449 | 5,336 | 5,372 | 4,906 | 5,608 | 5,500 | 4,982 | 5,785 | 5,935 | 6,585 | 5,946 | 6,608 | 6,721 | 7,826 | 7,304 | 7,489 | 8,157 | 7,818 | 7,682 | 8,103 |
| Cyfanswm [02, 16, 17] | 5,682 | 5,599 | 5,620 | 5,168 | 5,939 | 5,935 | 5,492 | 6,182 | 6,472 | 7,228 | 6,511 | 7,204 | 7,447 | 8,371 | 8,025 | 8,185 | 9,130 | 8,795 | 8,669 | 9,123 |

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Genedlaethol Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) - Swyddfa Ystadegau Genedlaethol

**Siart 14** Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) y sector coedwigaeth yng Nghymru (1998 = 1.0)



**Siart 15** Gwerth Gros a Ychwanegwyd (GVA) y sector coedwigaeth yng Nghymru o gymharu â'r DU (1998 = 1.0)




Dengys Siart 14 GVA ar gyfer Cymru wedi'i normaleiddio gyda 1998 fel y flwyddyn sylfaen. Dengys hyn fod GVA wedi cynyddu ar draws y tri sector a archwiliwyd ers 1998, gyda'r cynnydd mwyaf mewn coedwigaeth a logio. Dengys Siart 15 y GVA a normaleiddiwyd ar gyfer y sector coedwigaeth (gan gynnwys codau SIC 02, 16 ac 17) o'r DU a Chymru, gyda 1998 yn flwyddyn sylfaen. Ystyr hyn yw, er bod y diwydiannau ledled y DU yn dangos yr un duedd gyffredinol, gwelodd Cymru fwy o gynnydd mewn gwerth economaidd ar draws y sector o gymharu â'r DU.

**Tabl 15** GVA diwydiannau coedwigaeth a phrosesu pren Cymru fel canran o'r DU, 2018 i 2022

| Dosbarthiad Diwydiant Safonol (SIC) | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Coedwigaeth a logio (SIC 02) | 7.33% | 6.68% | 6.55% | 6.59% | 7.25% |
| Gweithgynhyrchu cynhyrchion | 7.00% | 6.43% | 7.02% | 7.28% | 6.80% |

| Dosbarthiad Diwydiant Safonol (SIC) | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| pren, ac eithrio am ddodrefn (SIC 16) | | | | | |
| Gweithgynhyrchu cynhyrchion papur (SIC 17) | 7.04% | 7.44% | 7.29% | 6.43% | 6.53% |

Dengys Tabl 15 GVA diwydiannau coedwigaeth a phrosesu pren Cymru fel canran o'r GVA ar gyfer y DU. Yn 2022, yr oedd coedwigaeth Cymru yn cynrychioli 7.25% o GVA y DU, gyda chynhyrchion pren a chynhyrchion papur yn cynrychioli 6.80% a 6.53%. Arhosodd hyn yn weddol sefydlog dros y 5 mlynedd a aeth heibio. Mae Cymru yn cynrychioli tua 4.7% o boblogaeth y DU ac 8.35% o arwynebedd tir y DU, felly mae'r gwerthoedd hyn ar gyfer GVA fel canran o ddiwydiant y DU yn fras yr hyn y gellid ei ddisgwyl.

## 3.2 Cyfrifon busnes


Dengys Tabl 16 a Siart 16 gyfrifon busnes yng Nghymru yn ôl categori SIC. Cynyddu wnaeth cyfanswm nifer y busnesau sy'n gweithredu yn y diwydiannau pren a choedwigaeth ers 2010; yr hyn sydd amlycaf yma yw nifer y busnesau yn y diwydiant coedwigaeth a logio (SIC 02). Bu gostyngiad yn nifer y busnesau sy'n gweithredu ym maes gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur.

**Tabl 16** Cyfrifon busnes yng Nghymru yn ôl categori SIC, 2010-2024

| Dyddiad | Coedwigaeth a logio (SIC 02) | Gweithgynhyrchu cynhyrchion pren, ac eithrio am ddodrefn (SIC 16) | Gweithgynhyrchu hyrchu cynhyrchion papur (SIC 17) |
|---|---|---|---|
| 2010 | 255 | 410 | 70 |
| 2011 | 275 | 400 | 70 |

| Dyddiad | Coedwigaeth a logio (SIC 02) | Gweithgynhyrchu cynhyrchion pren, ac eithrio am ddodrefn (SIC 16) | Gweithgynhyrchu hyrchu cynhyrchion papur (SIC 17) |
|---|---|---|---|
| 2012 | 280 | 375 | 55 |
| 2013 | 275 | 365 | 55 |
| 2014 | 270 | 375 | 45 |
| 2015 | 290 | 390 | 45 |
| 2016 | 290 | 410 | 45 |
| 2017 | 320 | 415 | 45 |
| 2018 | 330 | 420 | 40 |
| 2019 | 315 | 420 | 40 |
| 2020 | 315 | 430 | 50 |
| 2021 | 335 | 430 | 45 |
| 2022 | 335 | 460 | 45 |
| 2023 | 355 | 490 | 45 |
| 2024 | 370 | 470 | 45 |

**Siart 16** Cyfrifon busnes yn ôl sector, Cymru (2010-2024)




**Tabl 17** Nifer melinau llifio sy'n prosesu logiau a dyfwyd yn y DU, yn ôl cenedl

| Blwyddyn | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru | DU |
|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 90 | 9 | 56 | 15 | 170 |
| 2015 | 90 | 9 | 54 | 15 | 168 |
| 2016 | 87 | 9 | 53 | 14 | 163 |
| 2017 | 86 | 9 | 52 | 13 | 160 |
| 2018 | 81 | 9 | 50 | 12 | 152 |
| 2019 | 79 | 9 | 47 | 12 | 147 |
| 2020 | 77 | 9 | 46 | 12 | 144 |
| 2021 | 74 | 9 | 46 | 12 | 141 |
| 2022 | 74 | 9 | 46 | 12 | 141 |
| 2023 | 73 | 9 | 45 | 12 | 139 |

Ffynhonnell: Arolwg Melinau Llifio (Forest Research).

**Siart 17** Nifer melinau llifio sy'n prosesu logiau a dyfwyd yn y DU, yn ôl cenedl, 1994-2023




Ffynhonnell: Arolwg melinau llifio (Forest Research).

Dangosir nifer y melinau llifio y tybir eu bod yn prosesu logiau o goed a dyfwyd yn y DU, yn ôl gwlad, yn Siart 17. Daw nifer y melinau llifio o arolwg blynyddol Forest Research o felinau llifio. Mae cwmnïau sy'n gwneud prif waith prosesu logiau o goed a dyfwyd yn y DU wedi eu cynnwys yn yr arolwg blynyddol, ond nid yw melinau symudol wedi eu cynnwys. Gostwng wnaeth nifer y melinau llifio o'r fath ar draws y pedair cenedl, gan gynnwys Cymru, a welodd nifer y melinau llifio yn gostwng o 68% o 37 melin yn 1994 i 12 yn 2023. Mae nifer y melinau llifio a ymatebodd i'r arolwg pan gysylltwyd â hwy yn is nag union nifer y melinau llifio; fodd bynnag, amcangyfrifir nifer y melinau llifio o ymatebion y gorffennol, a'r rhai a ddangosir fel rhai gweithredol ar wefan Tŷ'r Cwmnïau [Companies House website](#).

# 4. Cyflogaeth yn y Sector Coedwigoedd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae data am nifer y gweithwyr ar gyfer Cymru ar gael, ond mae'r ansawdd yn amheus. Ni ellir darlunio tueddiadau oherwydd maint y newidiadau blynyddol anesboniadwy yn niferoedd y gweithwyr yr adroddir amdanynt (**Siart 18** Cyfrif gweithwyr llawn-amser yng Nghymru, yn ôl sector (2015-2023), **Siart 19** Gweithwyr llawn-amser mewn coedwigaeth mewn logio (SIC 02) ym Mhrydain Fawr, 2015-2023, **Siart 20** Gweithwyr llawn-amser mewn gweithgynhyrchu pren (SIC 16) ym Mhrydain Fawr, 2015-2023, **Siart 21** Gweithwyr llawn-amser mewn gweithgynhyrchu papur (SIC 17) ym Mhrydain Fawr, 2015-2023).
- Disgwylir cynnydd yn y galw am lafur yn y sector coedwigaeth yng Nghymru (**Tabl 19** Rhagfynegiad o'r galw am lafur mewn coedwigaeth, Cymru.)
- Gostwng y mae cyfraddau damweiniau mewn coedwigaeth a logio, cynhyrchu pren a chynhyrchu papur, ar draws y DU. Nid oes data am ddamweiniau penodol i Gymru ar gael, ond serch hynny, mae cyfraddau damweiniau cyffredinol yng Nghymru fel y gellid eu disgwyl o gymharu â'r cenhedloedd eraill (**Siart 23** Tueddiadau yng nghyfanswm y damweiniau yr adroddwyd amdanynt am bob 1,000 o weithwyr, Prydain Fawr, 2004/5 i 2022/23.).
- Mae diffyg data manwl a chyfoes am sgiliau yn y diwydiant pren i Gymru yn benodol. I asesu a lwyddir i gael gweithlu ffyniannus sy'n meddu ar sgiliau, mae angen casglu data mwy penodol.

## 4.1 Niferoedd gweithwyr

Blaenoriaeth 5 y Strategaeth Ddiwydiannol ar Gyfer Pren yw datblygu galluedd y sector, gan gynnwys mynd i'r afael â heriau ym maes sgiliau, a recriwtio a chadw. Dengys Tabl 18 y gweithwyr llawn- a rhan-amser, yn ôl cod SIC, yng Nghymru rhwng 2015 a 2023. Dengys Siart 18 y cyfrif o weithwyr llawn-amser am yr un codau SIC. Cafwyd y data hyn o Arolwg Cofrestri Busnes a Chyflogaeth (BRES) y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol. Mae holl ddata BRES sydd ar gael i'r cyhoedd wedi eu talgrynnu er mwyn ei gadw'n ddienw; mae mwy o wybodaeth ar gael yma: BRES Rounding Rules - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics. Mae anghysonderau go fawr yn y niferoedd a ddangosir ar gyfer Cymru: er enghraifft, mae amrywiadau mewn cyflogaeth mewn coedwigaeth a logio yn 2016 a 2021, ac yn nifer y gweithwyr mewn gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur yn 2017 a 2018, ac nid oes esboniad am yr un o'r rhain. Hwyrach y gellir priodoli'r natur afreolaidd hwn i nifer fechan y gweithwyr ledled Cymru, ac i golli manylion oherwydd y talgrynnu.


**Tabl 18** Cyflogaeth yn ôl sector yng Nghymru, 2015 - 2023, gweithwyr llawn-amser a rhan-amser

| Blwyddyn | Coedwigaeth a logio (SIC 02) | | Gweithgynhyrchu cynhyrchion pren, ac eithrio am ddodrefn (SIC 16) | | Gweithgynhyrchu cynhyrchion papur (SIC 17) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llawn-amser | Rhan-amser | Llawn-amser | Rhan-amser | Llawn-amser | Rhan-amser | Llawn-amser | Rhan-amser |
| 2015 | 900 | 75 | 3,000 | 200 | 3,000 | 100 | 6,900 | 375 |
| 2016 | 3,000 | 500 | 2,250 | 100 | 4,000 | 100 | 9,250 | 700 |
| 2017 | 450 | 350 | 6,000 | 150 | 3,500 | 250 | 9,950 | 750 |
| 2018 | 700 | 75 | 6,000 | 100 | 3,500 | 100 | 10,200 | 275 |
| 2019 | 500 | 125 | 2,500 | 100 | 4,000 | 700 | 7,000 | 925 |
| 2020 | 600 | 75 | 3,500 | 600 | 4,000 | 175 | 8,100 | 850 |

| Blwyddyn | Coedwigaeth a logio (SIC 02) | | Gweithgynhyrchu cynhyrchion pren, ac eithrio am ddodrefn (SIC 16) | | Gweithgynhyrchu cynhyrchion papur (SIC 17) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llawn-amser | Rhan-amser | Llawn-amser | Rhan-amser | Llawn-amser | Rhan-amser | Llawn-amser | Rhan-amser |
| 2021 | 2,000 | 125 | 3,500 | 500 | 2,500 | 175 | 8,000 | 800 |
| 2022 | 800 | 300 | 3,500 | 400 | 7,000 | 125 | 11,300 | 825 |
| 2023 | 700 | 175 | 4,500 | 800 | 4,500 | 150 | 9,700 | 1,125 |

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Genedlaethol, Arolwg Cofrestri Busnes a Chyflogaeth, 2023. Nomis - Query Tool - Business Register and Employment Survey: open access


**Siart 18** Cyfrif gweithwyr llawn-amser yng Nghymru, yn ôl sector (2015-2023)





Dengys Siart 19, Siart 20, a Siart 21 y gweithwyr llawn-amser mewn coedwigaeth a logio, cynhyrchu pren a chynhyrchu papur ar draws Prydain Fawr. Mae nifer y

gweithwyr llawn-amser yn y diwydiannau hyn wedi aros yn weddol gyson trwy gydol y cyfnod hwn; er hynny, ni welwyd yr hyn sy'n ymddangos fel amrywiadau blynyddol mewn cyflogaeth a welir yn ffigyrau Cymru yn y cenhedloedd eraill.


**Siart 19** Gweithwyr llawn-amser mewn coedwigaeth a logio (SIC 02) ym Mhrydain Fawr, 2015-2023



**Siart 20** Gweithwyr llawn-amser mewn gweithgynhyrchu pren (SIC 16) ym Mhrydain Fawr, 2015-2023




**Siart 21** Gweithwyr llawn-amser mewn gweithgynhyrchu papur (SIC 17) ym Mhrydain Fawr, 2015-2023



## 4.2 Rhagfynegiad o’r Galw am Lafur

Yn 2021, rhyddhaodd y Fforwm Sgiliau Coedwigaeth eu hadroddiad terfynol ar Ymchwil i’r Gweithlu Coedwigaeth. Fel rhan o’r ymchwil hwn, edrychwyd i mewn i’r rhagfynegiad o’r galw am lafur yn y diwydiant pren. Dengys Tabl 19 ddadansoddiad o ragfynegiad y galw am lafur yn y sector coedwigaeth, wedi’i wahanu yn ôl is-sector; Cynaeafu, Ail-stocio a Chreu Coetiroedd Newydd, ac yn ôl rôl; Gweithiwr Coedwigoedd, Goruchwyliwr Coedwigoedd a Choedwigwr Proffesiynol. Cymerir y teitlau hyn o Fapiau Galwedigaethol y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol ac fe’u mabwysiadwyd ar gyfer datblygu addysg dechnegol yn Lloegr. Defnyddir yr un termau yn nata Cymru er mwyn gallu cymharu; fodd bynnag, gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng Goruchwyliwr Coedwigoedd a Choedwigwr Proffesiynol. Amlygodd yr astudiaeth gan y Fforwm Sgiliau Coedwigaeth gynnydd disgwyliedig yn gyffredinol yn y galw am weithwyr coedwigaeth proffesiynol yng Nghymru tan 2030. I ymdrin â hyn, mae angen mwy o sgiliau a hyfforddiant.

**Tabl 19** Rhagfynegiad o’r galw am lafur mewn coedwigaeth, Cymru.

| Rôl | 2019 | 2025 | 2030 | % +/- i 2025 | % +/- i 2030 |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Cynaeafu*** | | | | | |
| **Gweithiwr Coedwigaeth** | 224 | 225 | 180 | 0 | -19 |
| **Goruchwyliwr Coedwigaeth** | 26 | 26 | 21 | 0 | -19 |
| **Coedwigwr Proffesiynol** | 13 | 13 | 10 | 0 | -19 |
| **CYFANSWM** | 262 | 263 | 211 | 0 | -19 |
| ***Ail-stocio*** | | | | | |
| **Gweithiwr Coedwigaeth** | 47 | 47 | 38 | 0 | -19 |
| **Goruchwyliwr Coedwigaeth** | 7 | 7 | 6 | 0 | -19 |
| **Coedwigwr** | 3 | 3 | 2 | 0 | -19 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Proffesiynol** | | | | | |
| **CYFANSWM** | 57 | 57 | 46 | 0 | -19 |
| ***Creu Coetiroedd Newydd*** | | | | | |
| **Gweithiwr Coedwigaeth** | 3 | 159 | 159 | d/g | d/g |
| **Goruchwyliwr Coedwigaeth** | 0 | 24 | 24 | d/g | d/g |
| **Coedwigwr Proffesiynol** | 0 | 20 | 20 | d/g | d/g |
| **CYFANSWM** | 3 | 203 | 203 | d/g | d/g |
| ***Cyfanswm*** | | | | | |
| **Gweithiwr Coedwigaeth** | 273 | 431 | 377 | 58 | 38 |
| **Goruchwyliwr Coedwigaeth** | 33 | 57 | 50 | 72 | 52 |
| **Coedwigwr Proffesiynol** | 16 | 36 | 32 | 125 | 105 |
| **CYFANSWM** | 322 | 523 | 460 | 62 | 43 |

Ffynhonnell: forestry-workforce-research-final-report-130821.pdf

## 4.3 Sgiliau yn y diwydiant coed

Yn 2017, rhyddhaodd y Fforwm Sgiliau Coedwigaeth ‘Astudiaeth Sgiliau Coedwigaeth i Gymru a Lloegr’. Nid yw’r adroddiad hwn yn gwahanu data ar gyfer Cymru yn benodol. Dengys Tabl 20 y lefel uchaf o gymwysterau a ddaliwyd yn y sector coedwigaeth yn 2014-16.

Dengys Siart 22 nifer y myfyrwyr yn ôl math o radd a blwyddyn academaidd am Gymru a Lloegr. Cwympo wnaeth cyfanswm nifer y myfyrwyr yn y cyfnod rhwng 2007/08 a 2015/16.


**Tabl 20** Lefel y cymhwyster uchaf a ddaliwyd yn y sector coedwigaeth, Cymru a Lloegr.

| Lefel y cymhwyster uchaf a ddaliwyd | SYG 2014 - 16 | Lantra 2009 - 10 |
|---|---|---|
| 1 NQF Lefel 4 ac uwch | 28% | 33% |
| 2 NQF Lefel 3 | 22% | 20% |
| 3 Prentisiaethau’r fasnach | 0% | d/g |
| 4 NQF Lefel 2 | 9% | 21% |

| Lefel y cymhwyster uchaf a ddaliwyd | SYG 2014 - 16 | Lantra 2009 - 10 |
|---|---|---|
| 5 Islaw NQF Lefel 2 | 12% | 20% |
| 6 Cymwysterau eraill | 4% | d/g |
| 7 Dim cymwysterau | 0% | 6% |

Ffynhonnell: [forestry-skills-study-report-for-england-and-wales-2017.pdf]

**Siart 22** Myfyrwyr Addysg Uwch Coedwigaeth a Choedyddiaeth yn ôl Math o Radd a Blwyddyn Academaidd (Cymru a Lloegr)




Ffynhonnell: [forestry-skills-study-report-for-england-and-wales-2017.pdf]

## 4.4 Damweiniau yn y gweithle

Mae gweithlu ffyniannus yn weithlu diogel. Mae'n bwysig felly mai gostwng y mae nifer y damweiniau yn y diwydiannau pren a choedwigaeth. Dengys Tabl 21 a Siart 23 gyfanswm nifer y damweiniau, yn ôl sector, ym Mhrydain Fawr o 2004/05 i 2022/23. Dengys Siart 23 fod cyfraddau damweiniau wedi bod yn gostwng yn gyffredinol ar draws y sector dros y cyfnod hwn. Mae dadansoddiadau manylach o'r mathau o ddamweiniau sy'n digwydd yn y sector coedwigaeth yn Nhabl 22 a Thabl 23. Daw'r data hyn o adroddiadau RIDDOR am ddamweiniau. Nid oes dadansoddiad manwl o ddamweiniau ar gael ar gyfer Cymru. O edrych i mewn i gyfanswm y cyfraddau ar draws Prydain Fawr (Tabl 24) mae cyfraddau yng Nghymru yn debyg i rai'r DU. Fodd bynnag, yng Nghymru y mae'r cyfraddau fymryn yn uwch na'r


cyfraddau yn Lloegr oherwydd bod cyfran uwch o bobl yn gweithio mewn swyddi risg uwch yng Nghymru.

**Tabl 21** Cyfanswm y damweiniau yr adroddwyd amdanynt yn ôl 1,000 gweithiwr, Prydain Fawr, 2004/05 i 2022/23.

| Blwyddyn | Coedwigaeth | Amaeth, *etc.* | Cynhyrchion coed | Cynhyrchion mwydion, papur a chynhyrchion papur | Gweithgyn hyrchu |
|---|---|---|---|---|---|
| 2004/05 | 18.9 | 7.3 | 13.0 | 8.7 | 9.3 |
| 2005/06 | 14.2 | 7.2 | 12.5 | 7.4 | 8.8 |
| 2006/07 | 20.8 | 6.7 | 12.9 | 8.2 | 8.2 |
| 2007/08 | 17.3 | 7.1 | 14.5 | 6.8 | 7.8 |
| 2008/09 | 10.5 | 6.5 | 11.6 | 7.0 | 7.1 |
| 2009/10 | 12.9 | 8.0 | 11.7 | 7.6 | 7.2 |
| 2010/11 | 8.3 | 6.0 | 11 | 5.7 | 6.7 |
| 2011/12 | 15.5 | 7.4 | 12.4 | 6.9 | 7.0 |
| 2012/13 | 11.8 | 5.5 | 9.0 | 5.9 | 5.3 |
| 2013/14 | 8.6 | 5.7 | 9.6 | 5.8 | 5.2 |
| 2014/15 | 6.5 | 5.5 | 8.9 | 5.4 | 4.9 |
| 2015/16 | 6.4 | 5.3 | 10.9 | 6.1 | 4.7 |
| 2016/17 | 7.3 | 4.4 | 11.1 | 5.5 | 4.7 |
| 2017/18 | 6.2 | 4.6 | 8.8 | 4.3 | 4.7 |
| 2018/19 | 6.7 | 5.1 | 8.6 | 5.6 | 4.7 |
| 2019/20 | 5.3 | 5.1 | 9.0 | 5.9 | 4.3 |
| 2020/21 | 5.6 | 4.9 | 6.3 | 4.6 | 3.5 |
| 2021/22 [ff] | 5.7 | 4.9 | 7.5 | 6.1 | 6.1 |
| 2022/23 [d] | 6.7 | 5.2 | 7.5 | 4.8 | 4.8 |

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Forest Research (2024) Ch7_Employment_FS2024.pdf
Nodiadau:[ff] ffigwr diwygiedig, [d] ffigwr darpariaethol.

**Siart 23** Tueddiadau yng nghyfanswm y damweiniau yr adroddwyd amdanynt yn ôl 1,000 gweithiwr, Prydain Fawr, 2004/5 i 2022/23.




**Tabl 22** Damweiniau yn ôl difrifoldeb a math mewn coedwigaeth, dadansoddiad Confor o ddata RIDDOR

| Difrifoldeb a Math o Anaf | 2016 /17 | 2017 /18 | 2018 /19 | 2019 /20 | 2020 /21p | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Angheuol** | **1** | **2** | **2** | **3** | **2** | **10** |
| Cyfergyd, Anafiadau mewnol, etc | | 1 | | 2 | 1 | **4** |
| Anafiadau lluosog, Anhysbys | 1 | | 1 | | 1 | **3** |
| Anhysbys | | 1 | | | | **1** |
| Mygu, gwenwyn etc | | | 1 | | | **1** |
| Tor-esgyrn | | | | 1 | | **1** |
| **Penodol** | **43** | **58** | **43** | **38** | **35** | **217** |
| Torri asgwrn | 38 | 50 | 38 | 31 | 30 | **187** |
| Colli aelod | 3 | 3 | 2 | 4 | | **12** |
| Mynd yn anymwybodol | 1 | 4 | 3 | 2 | 2 | **12** |

| Difrifoldeb a Math o Anaf | 2016 /17 | 2017 /18 | 2018 /19 | 2019 /20 | 2020 /21p | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasgu | | | | 1 | 2 | **3** |
| Man caeedig | | 1 | | | 1 | **2** |
| Penflingo | 1 | | | | | **1** |
| **Dros 7-diwrnod** | **100** | **71** | **59** | **59** | **57** | **346** |
| Rhwygiadau | 32 | 23 | 25 | 13 | 20 | **113** |
| Ysigo | 17 | 20 | 19 | 21 | 15 | **92** |
| Arall hysbys | 15 | 7 | 5 | 9 | 4 | **40** |
| Clais | 8 | 12 | 1 | 5 | 5 | **31** |
| Tor-esgyrn | 12 | 3 | 2 | 5 | 4 | **26** |
| Datgymalu | 7 | 2 | 3 | 2 | 4 | **18** |
| Arwynebol | 4 | 2 | 1 | 2 | 1 | **10** |
| Cyfergyd, Anafiadau mewnol,etc | 1 | | 1 | 1 | 2 | **5** |
| Anhysbys | | 1 | 1 | 1 | 1 | **4** |
| Colli golwg | 2 | | | | 1 | **3** |
| Anafiadau lluosog | | 1 | 1 | | | **2** |
| Llosgiadau | 1 | | | | | **1** |
| Mygu, gwenwyn, etc | 1 | | | | | **1** |
| **Cyfanswm** | **144** | **131** | **104** | **100** | **94** | **573** |

Ffynhonnell: analysis-of-riddor-incidents-and-initial-notifications-involving-injuries-in-forestry-and-arboriculture-december-2022.pdf

**Tabl 23** Damweiniau yn ôl difrifoldeb a math mewn coedwigaeth, dadansoddiad Confor o ddata RIDDOR

| Difrifoldeb a Math o Ddamwain | 2016 /17 | 2017 /18 | 2018 /19 | 2019 /20 | 2020 /21d | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Angheuol** | **1** | **2** | **2** | **3** | **2** | **10** |
| Taro gan wrthrych yn symud/disgyn | 1 | 1 | 1 | 3 | 2 | **8** |
| Dal yn sownd gan rywbeth yn dymchwel | | 1 | | | | **1** |
| Taro gan gerbyd yn symud | | | 1 | | | **1** |
| **Penodol** | **43** | **58** | **43** | **38** | **35** | **217** |
| Taro gan wrthrych yn symud/disgyn | 16 | 23 | 18 | 10 | 10 | **77** |
| Llithro, baglu, cwympo ar yr un lefel | 8 | 14 | 7 | 6 | 9 | **44** |
| Cwympo o uchder | 8 | 5 | 7 | 10 | 6 | **36** |
| Cyswllt â pheiriannau'n symud | 6 | 7 | 2 | 8 | 4 | **27** |
| Anafiadau codi a thrin | 2 | 3 | 5 | 1 | 1 | **12** |

| **Difrifoldeb a Math o Ddamwain** | **2016 /17** | **2017 /18** | **2018 /19** | **2019 /20** | **2020 /21d** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Taro gan gerbyd yn symud | | 4 | 2 | 1 | 2 | **9** |
| Taro yn erbyn rhywbeth | 2 | 2 | | | 3 | **7** |
| Math arall o ddamwain | 1 | | 1 | 2 | | **4** |
| Dal yn sownd gan rywbeth yn dymchwel | | | 1 | | | **1** |
| **Dros 7-Diwrnod** | **100** | **71** | **59** | **59** | **57** | **346** |
| Llithro, baglu, cwympo ar yr un lefel | 19 | 17 | 13 | 19 | 13 | **81** |
| Cyswllt â pheiriannau'n symud | 15 | 16 | 12 | 13 | 13 | **69** |
| Anafiadau codi a thrin | 16 | 12 | 14 | 8 | 9 | **59** |
| Math arall o ddamwain | 22 | 11 | 7 | 6 | 7 | **53** |
| Taro gan wrthrych yn symud/disgyn | 18 | 9 | 7 | 7 | 7 | **48** |
| Cwympo o uchder | 4 | 4 | 2 | 1 | | **11** |
| Taro gan gerbyd yn symud | 2 | 1 | | 1 | 3 | **7** |
| Taro yn erbyn rhywbeth llonydd | 1 | 1 | 2 | | 3 | **7** |
| Dal yn sownd gan rywbeth yn dymchwel | 1 | | | 4 | | **5** |
| Anafwyd gan anifail | | | 2 | | 1 | **3** |
| Gweithredoedd treisgar | 1 | | | | 1 | **2** |
| Wynebu tân | 1 | | | | | **1** |
| **Cyfanswm** | **144** | **131** | **104** | **100** | **94** | **573** |

Ffynhonnell: analysis-of-riddor-incidents-and-initial-notifications-involving-injuries-in-forestry-and-arboriculture-december-2022.pdf

**Tabl 24** Cyfanswm damweiniau yn y gweithle yr adroddwyd amdanynt dan RIDDOR yn ôl gwlad, 2023/24.

| Gwlad | Cyfanswm nifer y damweiniau heb fod yn angheuol yr adroddwyd amdanynt | Cyfradd cyfanswm damweiniau heb fod yn angheuol yr adroddwyd amdanynt am bob 100,000 o weithwyr | Nifer anafiadau angheuol i weithwyr | Cyfradd anafiadau angheuol am bob 100,000 o weithwyr |
|---|---|---|---|---|
| **Prydain Fawr** | 61,663 | 217 | 138 | 0.42 |
| **Lloegr** | 52,586 | 214 | 113 | 0.39 |
| **Cymru** | 3,358 | 265 | 7 | 0.48 |
| **Yr Alban** | 5,719 | 236 | 18 | 0.65 |

Ffynhonnell: Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE), 2024. Statistics - Index of tables.

**Alice Holt Lodge**
Farnham
Surrey, GU10 4LH, DU
Tel: **0300 067 5600**

**Gorsaf Ymchwil y Gogledd**
Roslin
Midlothian, EH25 9SY, DU
Tel: **0300 067 5900**

**Forest Research yng Nghymru**
Swyddfa Ymchwil
Talybont
Cefn Gethiniog
Talybont-ar-Wysg
Aberhonddu
Powys, LD3 7YN, DU
Tel: **0300 067 5709**

**info@forestresearch.gov.uk**
**www.forestresearch.gov.uk**

Bydd Forest Research yn ystyried pob cais i beri bod cynnwys ein dogfennau ar gael mewn fformatiau amgen.

Anfonwch unrhyw geisiadau o’r fath at: research.info@forestresearch.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2025